Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cofnodion Cyfarfod y Bwrdd, 26 Ionawr 2018

**Yn bresennol:**
Yr Ysgrifennydd Parhaol (Cadeirydd)
Andrew Goodall
Caren Fullerton (Yn dirprwyo dros Tracey Burke)
Andrew Slade
David Richards
Gawain Evans
Natalie Pearson
Elan Closs Stephens
Ann Keane
James Turner
Peter Kennedy
Jeff Godfrey
Dean Medcraft
Gillian Baranski
Lynne Schofield

**Yn cefnogi:**
Jo Salway (Eitem 1)
Toby Mason (Eitem 1)
Simon Brindle (Eitem 4)
Piers Bisson (Eitem 4)
Peter Ryland (Eitem 4)
Sharon Cross (Eitem 5)

**Ysgrifenyddiaeth:**
Sarita Marshall
Rob Jones

## Perfformiad Llywodraeth Cymru

1. **Ffyniant i Bawb – Trefniadau Llywodraethu [Bwrdd(18)001]**

1.1 Cyflwynodd Jo Salway, Pennaeth Swyddfa'r Cabinet, bapur yn amlinellu'r cynigion ar gyfer model atebolrwydd a sicrwydd er mwyn cyflwyno *Ffyniant i Bawb*, a oedd yn cynnwys mabwysiadu agwedd strwythuredig tuag at atebolrwydd a monitro. Trafodwyd hefyd rôl barhaus y Bwrdd i fonitro'r ffordd y cyflwynir *Ffyniant i Bawb* a chafodd rôl a chylch gwaith Grŵp y Cyfarwyddwyr ei drafod hefyd.

1.2 Cytunwyd y byddai cyfathrebu ac ymgysylltu yn cael eu hystyried yng Ngrŵp y Cyfarwyddwyr.

1.3 Diolchwyd i Jo Salway a'i thîm am y gwaith rhagorol a wnaed.

2 **Cynllun Gweithredu Economaidd [Eitem Lafar]**

2.1 Rhoddwyd cyflwyniad gan Andrew Slade ar y Cynllun Gweithredu Economaidd, sef y cynllun gweithredu cyntaf i ddeillio o *Ffyniant i Bawb* ac a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2017. Clywodd y Bwrdd, wrth ddatblygu'r cynllun, fod egwyddorion allweddol wedi sefydlu ynghylch

alinio a pherchenogaeth. Cytunwyd bod y Cynllun yn dempled y gellid dysgu ohono ac y dylid rhoi'r cyflwyniad i'r Grŵp Busnes hefyd.

3 **Adroddiad Cyllid [Bwrdd(18)002]**

3.1 Amlinellodd Gawain Evans, Cyfarwyddwr Cyllid, y sefyllfa ariannol yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys y rhagolygon ar gyfer alldro 2017-18.

3.2 Nododd y Bwrdd bod y newidiadau i brosesau eisoes wedi arwain at welliannau, a llongyfarchwyd Gawain a'i gydweithwyr ar draws y Grwpiau ar y lefel o gywirdeb a gyflawnwyd wrth baratoi'r rhagolygon.

**Corfforaethol**

4 **Diweddariad ar Drefniadau Pontio'r UE a Chronfeydd Strwythurol yr UE [Bwrdd(18)003]**

4.1 Rhoddodd Piers Bisson, Cyfarwyddwr – Trefniadau Pontio Ewropeaidd, a Simon Brindle, Dirprwy Gyfarwyddwr – Trefniadau Pontio Ewropeaidd, ddiweddariad ar y cynnydd ynghylch materion Pontio'r Undeb Ewropeaidd (UE). Clywodd y Bwrdd fod y papur *Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru ar ôl Brexit* wedi cael ei groesawu gan randdeiliaid.

4.2 Dymunai Piers ddiolch i Jeff Godfrey, Cyfarwyddwr yr Adran Gwasanaethau Cyfreithiol, a'i dîm am eu cefnogaeth ragorol.

4.3 Rhoddodd Peter Ryland, Dirprwy Gyfarwyddwr, Perfformiad Rhaglenni a Chyllid, ddiweddariad ar y sefyllfa o ran Cronfeydd Strwythurol yr UE.

4.4 Clywodd y Bwrdd fod y Comisiwn wedi dweud eu bod yn hapus â chynnydd y rhaglenni Cymreig ym mhob agwedd.

4.5 Llongyfarchodd y Bwrdd Peter Ryland a'i dîm ar gynnydd y rhaglenni.

5 **Cymryd Camau mewn ymateb i Ganlyniadau'r Arolwg Pobl [Bwrdd(18)004]**

5.1 Ymunodd Sharon Cross, Pennaeth y Tîm Ymchwil Gorfforaethol â Natalie Pearson, Pennaeth Ymgysylltu ac Arloesi. Rhoddwyd diweddariad ar y gwaith sy'n cael ei wneud mewn ymateb i ganlyniadau'r Arolwg Pobl 2017.

5.2 Clywodd y Bwrdd y byddai'r Ymgyrch Paratoi at y Dyfodol yn adolygu ac yn ailwampio'r agwedd at Ddysgu a Datblygu ac y byddai adolygiad annibynnol yn cael ei gynnal gan y Cyfarwyddwr Anweithredol, James Turner, ar effeithiolrwydd y polisïau, gweithdrefnau a'r cyfathrebu sydd ar waith gan y sefydliad i hyrwyddo parch ac urddas yn y gwaith a mynd i'r afael â phob math o ymddygiad amhriodol.

5.3 Ystyriodd y Bwrdd adborth gan Gyfarwyddwyr ar gamau y dylid eu cymryd i ymateb i ganlyniadau'r Arolwg Pobl a chytuno y dylid cymryd camau ar y meysydd Dysgu a Datblygu lle mae perfformiad yn isel,

Cydweithio Ledled Cymru, ac Arweinyddiaeth, gan gynnwys Rheoli Newid. Cytunwyd hefyd y dylid ystyried gosod targedau yn y meysydd hyn.

5.4 Cytunwyd y dylid rhannu negeseuon clir â staff ar y camau a fyddai'n cael eu cymryd, gan gynnwys gwybodaeth am gyflwyno Gweithio'n Hyblyg, yr awr lesiant, yr adolygiad a gynhelir gan James Turner, a'r cyfle i fynegi diddordeb yn yr adolygiad hwnnw, a'r newidiadau i'r trefniadau rheoli perfformiad.

**Eitemau Rheolaidd**

6. **Eitemau'r Ysgrifennydd Parhaol ac Adroddiadau Eithrio [Eitem Lafar]**

6.1 Rhoddodd Andrew Goodall, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Iechyd a Phrif Weithredwr y GIG, ddiweddariad cryno gan ei Grŵp ef, gan gynnwys ymateb GIG Cymru i bwysau eithriadol dros y gaeaf a chyhoeddi adroddiad terfynol yr Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru. Adroddodd hefyd ar y toriad mewn gwasanaeth TG yn y GIG yn ddiweddar. Roedd sefydliadau wedi troi at eu cynlluniau parhad busnes a chafodd y sefyllfa ei sefydlogi ymhen 3.5 awr.

7. **Diweddariadau yr Is-bwyllgor [Eitem Lafar]**

7.1 Adroddodd Dean Medcraft, Cadeirydd y Pwyllgor Gweithrediadau, ar y cyfarfod diwethaf, a oedd wedi cynnwys ystyried gofynion y Ddeddf Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol, y byddai angen iddynt fod yn eu lle erbyn mis Mai 2018. Trafododd y Pwyllgor y cynigion ar gyfer trefniadau llywodraethu newydd hefyd.

7.2 Adroddodd James Turner, Cadeirydd Pwyllgor Cyflogau'r Uwch Wasanaeth Sifil ar y cyfarfod diwethaf, lle rhoddwyd cyflwyniad ar waith yr Is-adran Seilwaith Economaidd, a lle trafodwyd recriwtio Dirprwy Gyfarwyddwyr.

7.3 Rhoddodd David Richards, Cadeirydd Bwrdd y Rhaglen Ddeddfwriaethol, ddiweddariad ar y rhaglen ddeddfwriaethol.

7.4 Wrth gloi, myfyriodd yr Ysgrifennydd Parhaol ar ei blwyddyn gyntaf yn y swydd, gan ddweud ei bod wedi mwynhau ei chyfnod yn fawr iawn hyd yma, a diolchodd i'r Bwrdd am eu cefnogaeth.

**Swyddfa Breifat yr Ysgrifennydd Parhaol, 29 Ionawr 2018**